

Cylch Gorchwyl: Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Enw:	Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru
Y Cefndir:	Sefydlwyd Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru ym mis Ionawr 2015, ar ôl ailstrwythuro'r drefn o gyflenwi twristiaeth ranbarthol yng Nghymru o Bartneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol i Croeso Cymru. Caiff y Fforwm ei gydnabod yn swyddogol gan Lywodraeth Cymru a'i Gweinidogion fel un o bedwar Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol.
Pwrpas:	Mae Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn ddull allweddol o sicrhau cyfathrebu dwyffordd rhwng Croeso Cymru a'r sector twristiaeth. Nod y Fforwm yw datblygu dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â gweithgarwch presennol a gweithgarwch sydd ar y gweill a seilio dyraniadau cyllideb rhanbarthol ar flaenoriaethau'r Strategaeth Twristiaeth Genedlaethol a Tyfu Canolbarth Cymru ar lefel ranbarthol. Mae'r Fforwm hefyd yn ystyried sensitifrwydd masnachol ac yn cydnabod mai rhanddeiliaid unigol sy'n gyfrifol yn y pen draw am brosesau gwneud penderfyniadau.
Amcanion y Fforwm:	<p>Bod yn gyfrwng ar gyfer cyfnewid syniadau a safbwyntiau perthnasol ynghylch materion twristiaeth ac yn ddull o sicrhau cydweithredu effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth.</p> <p>Darparu cyngor, cyfarwyddyd a chysylltiadau â Croeso Cymru/Llywodraeth Cymru, Tyfu Canolbarth Cymru, Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau, ynghylch blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ranbarthol.</p> <p>Atgyfnerthu trefniadau cydweithredu rhwng y Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau o fewn y rhanbarth.</p> <p>Dosbarthu gwybodaeth, penderfyniadau a thrafodaethau yn y Fforwm i'r sector twristiaeth ehangach drwy rwydweithiau sefydliadol yr Aelodau.</p>
Aelodaeth:	Cadeirydd a chynrychiolwyr o holl Bartneriaethau Rheoli Cyrchfannau Canolbarth Cymru a chynrychiolwyr eraill rhanbarthol a sectoraidd perthnasol o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
Gweithredu:	<p>Caiff tri chyfarfod eu cynnal bob blwyddyn.</p> <p>Darperir y gwasanaethau ysgrifenyddol gan Dîm Rhanbarthol Croeso Cymru.</p> <p>Mae'r Aelodau'n ymrwmo i'r grŵp drwy gymryd rhan yn y gwaith o rannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd yn rheolaidd.</p> <p>Dylai'r Aelodau nad oes modd iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfodydd enwebu cynrychiolydd arall. Gallai methiant i wneud hynny dair gwaith arwain at gais i ymddiswyddo a bydd cynrychiolydd arall yn cael ei ddewis.</p>
Gwerthoedd/Ethos:	<p>Mae'r Aelodau'n gyfrifol am greu awyrgylch gwaith cefnogol lle nad oes unrhyw feirniadu a lle y caiff sylwadau pawb eu hystyried yn yr un modd a'u parchu.</p> <p>Mae'r Aelodau'n gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Nolan.</p> <p>Mae'r Aelodau'n cynrychioli ac yn gweithredu ar ran eu sefydliad a gaiff ei gynrychioli yn y Fforwm.</p>